Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Public Engagement and Involvement Forum

# 2 March 2022

## Session 2: Discover your role in health and social care research Q&A

### What is being done to promote greater collaboration and avoid duplication in the work you are doing with the same goals in England and Scotland?

We have been working in collaboration with colleagues in other UK nations for some time, identifying areas of public involvement where we share the same objectives. The development of the UK Standards has been a great example of this multi-nation collaboration, and colleagues from Wales have played, and continue to play, a leading role in this work.

The experience of working together on the UK Standards has led to the creation of the Five Nations Public Involvement Group – with the objective to further the cause of good quality public involvement in health and care research. The objectives of the group include:

- Promote the UK Standards and encourage their adoption and application
- Provide peer support and learning among the members of the group on matters of common concern
- Identify opportunities to strengthen public involvement through developing and promoting common, UK-wide or UK and Ireland positions on public involvement aspects, such as the standards and payments

Health and Care Research Wales is also one of 16 UK-wide organisations who have signed the Health Research Authority (HRA) shared commitment to Public Involvement, joint commitment to improve the amount and quality of public involvement across the sector so that it is consistently excellent.

### What is being done to encourage more people to become interested and engaged in health and social care research?

We recently published the Health and Care Research Wales public engagement strategy, which acts as a framework for raising awareness, extending reach, and achieving impact in health and social care research. This strategy highlights the impact of research and will facilitate more people to find out more, help shape and be part of health and social care research in Wales.

Members of the public were involved from the outset, supporting the team to develop this strategy. Since this strategy has been developed, we have established an external stakeholder advisory group to support our work. Each member has knowledge and experience of involving under-served communities in research and support us by tailoring our messages and identify suitable approaches to engaging with under-served communities in Wales.

## In addition to working on an equality, diversity, and inclusion (EDI) strategy, are there any other steps that Health and Care Research Wales will be taking to work on EDI issues?

The external stakeholder advisory group, that supports our engagement strategy, is made up of community leads, policy makers, practitioners, and researchers from the following organisations:

- Ethnic Youth Support Team (EYST)
- Parent Voices in Wales
- Change Grow - Social Care Charity
- Public Health Wales
- YLab
- Learning Disability Wale
- Grangetown Community Gateway
- Children's Commissioner policy leads
- Together for Children and Young People
- Diverse Cymru
- Public Involvement Community members

This group has helped us to tailor our communications to suit different communities, advising us to adopt a flexible approach to engagement and involvement.

## How is public involvement embedded within high level Health and Care Research Wales structure?

Public involvement is embedded across many aspects of the Health and Care Research Wales structure. For example:

- Public contributors are involved at all stages of the research cycle within Health and Care Research Wales. We have a long history of public involvement in our funding schemes and recognise the importance and added value of involving the public in the funding process. We require public involvement in the development of application, and we require ongoing public involvement in the delivery of funded projects.
- Research infrastructure group funding provided by Health and Care Research Wales includes dedicated involvement funding for posts and activities in many of the research groups. We have set up a support network for all public involvement leads, called the involvement alliance. This is a cohesive community of public involvement leads from our funded infrastructure who meet bi-monthly to advise and support on all aspect of public involvement. It's an opportunity to share expertise, learnings, skills and overcome barriers to involvement.
- The development of public involvement policy for Health and Care Research Wales has been done in collaboration with members of the public, researchers and other stakeholders. This in turn influences the role of public involvement in other Health and Care Research Wales policy work. As part of the 'Discover Your Role' action plan, we will be undertaking an audit of Health and Care Research Wales processes against the UK Standards for Involvement, identifying areas for further improvement.
- The Health and Care Research Wales Communication, Engagement and Involvement team ensures that all funded organisations must use a fair and consistent approach to offering public involvement opportunities, this helps to ensure we reach across Wales and diverse communities.

## How can Health and Care Research Wales support independent researchers, i.e at the PhD Studentship level, which currently only accepts project applications via academics on behalf of their enrolled students?

PhD students funded through Health and Care Research Wales can access financial support through the enabling involvement fund, where we can provide public involvement support during the bid development stage.

### How about encouraging patient-led research?

Patient-led research involves the public as equal partners throughout the research cycle which includes developing the idea and collecting and analysing data. This is one model of public involvement, and we are interested in understanding how we might be able to support this type of approach where this could develop further.

A number of Health and Care Research Wales funded groups include public contributors as co-applicants, drawing them in as fully fledged members of the research team.
Similarly, members of the public have an important and equal voice in the Health and Care Research Wales prioritisation panel that decides which research applications can proceed through the funding application process.

## A lot of research is carried out but comparatively little is implemented into practice, whether it is secondary care and less so into primary care. Should emphasis on funding be given to applications where there is a higher likelihood that outcomes will inform and change practice?

The nature of research means that real life tangible impact takes a considerably long time to come to fruition. However, one of the many benefits of public involvement is to demonstrate the long-term outcomes with research studies and give real-life pictures to steer the research to make sure that it will inform and change practice.

Health and Care Research Wales' approach to funding does include a first stage where public, policy and practice relevance of proposed research applications is considered, with the objective that studies which will be suitable to inform and change practice are emphasised.

Health and Care Research Wales has released a publication highlighting some of the significant impacts on policy and practice by our funded research. The research groups funded by Health and Care Research Wales also have their own examples of impact.

One of the areas where this has come to the fore is in relation to the COVID-19 pandemic. Health and Care Research Wales has funded the Wales COVID-19 Evidence Centre, with a partnership model that enables rapid synthesis of evidence to inform the response and management of the pandemic by Welsh Government and across the health and care system.

# Fforwm Ymgysylltu a Chynnwys y Cyhoedd

# 2 Mawrth 2022

# Sesiwn 2: Holi ac Ateb: Darganfod Eich Rôl mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol

## Beth sy'n cael ei wneud i hyrwyddo mwy o gydweithio ac osgoi dyblygu yn y gwaith gyda'r un nodau yr ydych yn ei wneud yn Lloegr a'r Alban?

Rydym wedi bod yn gweithio ar y cyd â chydweithwyr yng ngwledydd eraill y DU ers peth amser, gan nodi meysydd cynnwys y cyhoedd lle rydym yn rhannu'r un amcanion. Mae datblygiad Safonau'r DU wedi bod yn enghraifft wych o'r cydweithio aml-genedl hwn, ac mae cydweithwyr o Gymru wedi chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith hwn, ac yn parhau i wneud hynny.

Mae'r profiad o gydweithio ar Safonau'r DU wedi arwain at greu Grŵp Cynnwys y Cyhoedd y Pum Gwlad – gyda'r nod o hyrwyddo cynnwys y cyhoedd o ansawdd da mewn ymchwil iechyd a gofal. Mae amcanion y grŵp yn cynnwys:

- Hyrwyddo Safonau'r DU ac annog eu mabwysiadu a'u cymhwyso;
- Darparu cefnogaeth cymheiriaid a dysgu ymhlith aelodau'r grŵp ar faterion o bryder cyffredin;
- Nodi cyfleoedd i gryfhau cynnwys y cyhoedd trwy ddatblygu a hyrwyddo safbwyntiau cyffredin, o ran y DU gyfan neu DU ac Iwerddon, ar agweddau cynnwys y cyhoedd, megis y safonau a thaliadau.

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru hefyd yn un o 16 o sefydliadau ledled y DU sydd wedi llofnodi'r Ymrwymiad a rennir gan Ymchwil Iechyd (HRA) i Gynnwys y Cyhoedd, ymrwymiad ar y cyd i wella swm ac ansawdd cynnwys y cyhoedd ar draws y sector, fel ei fod yn gyson ragorol.

## Beth sy'n cael ei wneud i annog mwy o bobl i ymddiddori mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol ac i gymryd rhan ynddo?

Yn ddiweddar, cyhoeddwyd strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, sy'n gweithredu fel fframwaith ar gyfer codi ymwybyddiaeth, ymestyn cyrhaeddiad, a chyflawni effaith mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r strategaeth hon yn amlygu effaith ymchwil a bydd yn hwyluso mwy o bobl i ddarganfod mwy, helpu i lunio a bod yn rhan o ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Bu aelodau'r cyhoedd yn gysylltiedig o'r cychwyn cyntaf, gan gefnogi'r tîm i ddatblygu'r strategaeth hon. Ers i'r strategaeth hon gael ei datblygu, rydym wedi sefydlu grŵp cynghori rhanddeiliaid allanol i gefnogi ein gwaith. Mae gan bob aelod wybodaeth a phrofiad o gynnwys cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol mewn ymchwil, ac maent yn ein cefnogi drwy deilwra ein negeseuon a nodi dulliau addas o ymgysylltu â chymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol yng Nghymru.

## Yn ogystal â gweithio ar strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI), a oes unrhyw gamau eraill y bydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn eu cymryd i weithio ar faterion EDI?

Mae'r grŵp cynghori rhanddeiliaid allanol, sy'n cefnogi ein strategaeth ymgysylltu yn cynnwys arweinwyr cymunedol, llunwyr polisi, ymarferwyr, ac ymchwilwyr o'r sefydliadau a ganlyn:

- Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST),
- Lleisiau Rhieni yng Nghymru,
- Newid Tyfu - Elusen Gofal Cymdeithasol,
- Iechyd Cyhoeddus Cymru,
- YLab,
- Anabledd Dysgu Cymru,
- Porth Cymunedol Grangetown,
- Arweinwyr polisi'r Comisiynydd Plant
- Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc
- Diverse Cymru
- Aelodau o Gymuned Cynnwys y Cyhoedd.

Mae'r grŵp hwn wedi ein helpu i deilwra ein cyfathrebiadau i weddu i gymunedau gwahanol, gan ein cynghori i fabwysiadu dull hyblyg o ymgysylltu a chynnwys.

## Sut mae Cynnwys y Cyhoedd wedi'i wreiddio o fewn strwythur lefel uchel Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru?

Mae cynnwys y cyhoedd wedi'i wreiddio ar draws sawl agwedd ar strwythur Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Er enghraifft:

- Mae cyfranwyr cyhoeddus yn cael eu cynnwys ar bob cam o'r cylch ymchwil o fewn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae gennym hanes hir o gynnwys y cyhoedd yn ein cynlluniau ariannu ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth ychwanegol cynnwys y cyhoedd yn y broses ariannu. Wrth ddatblygu ceisiadau, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i gynnwys y cyhoedd, ac rydym angen cynnwys y cyhoedd yn barhaus wrth gyflenwi prosiectau a ariennir.
- Mae cyllid grŵp seilwaith ymchwil a ddarperir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn cynnwys cyllid cyfranogiad penodol ar gyfer swyddi a gweithgareddau mewn llawer o'r grwpiau ymchwil. Rydym wedi sefydlu rhwydwaith cymorth ar gyfer yr holl arweinwyr cynnwys y cyhoedd, a elwir yn Gynghrair Cynnwys. Mae hon yn gymuned gydlynol o arweinwyr cynnwys y cyhoedd o'n seilwaith a ariennir sy'n cyfarfod bob deufis i roi cyngor a chymorth ar bob agwedd ar gynnwys y cyhoedd. Mae'n gyfle i rannu arbenigedd, dysg, sgiliau a goresgyn rhwystrau i gynnwys y cyhoedd.
- Datblygwyd polisi cynnwys y cyhoedd ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar y cyd ag aelodau o'r cyhoedd, ymchwilwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae hyn yn ei dro yn dylanwadu ar rôl cynnwys y cyhoedd mewn gwaith polisi arall gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Fel rhan o gynllun gweithredu 'Darganfod Eich Rôl', byddwn yn cynnal archwiliad o brosesau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn erbyn Safonau Cynnwys y DU, gan nodi meysydd i'w gwella ymhellach.
- Mae tîm Cyfathrebu, Ymgysylltu a Chynnwys Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn sicrhau bod rhaid i bob sefydliad a ariennir ddefnyddio dull teg a chyson o gynnig cyfleoedd cynnwys y cyhoedd; mae hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn cyrraedd ar draws Cymru a chymunedau amrywiol.

## Sut gall Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru gefnogi ymchwilwyr annibynnol, h.y. ar lefel Efrydiaeth PhD, sydd ar hyn o bryd ond yn derbyn ceisiadau prosiect trwy academyddion ar ran eu myfyrwyr cofrestredig?

Gall myfyrwyr PhD a ariennir drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru gael cymorth ariannol drwy'r gronfa galluogi cynnwys, lle gallwn ddarparu cymorth cynnwys y cyhoedd yn ystod cam datblygu'r cais.

## Beth am annog ymchwil a arweinir gan gleifion?

Mae ymchwil a arweinir gan gleifion yn cynnwys y cyhoedd fel partneriaid cyfartal trwy gydol y cylch ymchwil, sy'n cynnwys datblygu'r syniad a chasglu a dadansoddi data. Mae hwn yn un model o gynnwys y cyhoedd, ac mae gennym ddiddordeb mewn deall sut y gallem gefnogi'r math hwn o ddull gweithredu lle gallai hyn ddatblygu ymhellach.

Mae nifer o grwpiau Seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn cynnwys cyfranwyr cyhoeddus fel cyd-ymgeiswyr, gan eu denu i mewn fel aelodau cyflawn o'r tîm ymchwil. Yn yr un modd, mae gan aelodau'r cyhoedd lais pwysig a chyfartal ym mhanel blaenoriaethu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru sy'n penderfynu pa geisiadau ymchwil all fynd ymlaen drwy'r broses ymgeisio am gyllid.

## Mae llawer o ymchwil yn cael ei wneud ond cymharol ychydig sy'n cael ei roi ar waith yn ymarferol, boed yn ofal eilaidd, ac yn llai felly gofal sylfaenol. A ddylid rhoi pwyslais ar gyllid i geisiadau lle mae mwy o debygolrwydd y bydd canlyniadau yn llywio ac yn newid arferion?

Mae natur ymchwil yn golygu bod effaith diriaethol bywyd go iawn yn cymryd amser hir iawn i ddwyn ffrwyth. Fodd bynnag, un o fanteision niferus cynnwys y cyhoedd yw dangos y canlyniadau hirdymor gydag astudiaethau ymchwil a rhoi darluniau o fywyd go iawn i lywio'r ymchwil er mwyn gwneud yn siŵr y bydd yn llywio ac yn newid arfer.

Mae dull ariannu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn cynnwys cam cyntaf lle mae perthnasedd cyhoeddus, polisi ac ymarfer ceisiadau ymchwil arfaethedig yn cael ei ystyried, gyda'r nod o bwysleisio astudiaethau a fydd yn addas i lywio a newid arfer.

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi rhyddhau cyhoeddiad yn amlygu rhai o'r effeithiau sylweddol ar bolisi ac ymarfer gan ein hymchwil a ariennir. Mae gan y Grwpiau Seilwaith Ymchwil a ariennir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru hefyd eu henghreifftiau eu hunain o effaith.

Un o'r meysydd lle mae hyn wedi dod i'r amlwg yw'r pandemig COVID. Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi ariannu'r Ganolfan Dystiolaeth COVID, gyda model partneriaeth sy'n galluogi synthesis cyflym o dystiolaeth i lywio ymateb a rheolaeth y pandemig gan Lywodraeth Cymru ac ar draws y system iechyd a gofal.